



Cyngor Cymuned Llanrhystud *Community Council*

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 04 Mehefin 2025 yng Nghapel Elim, Llanddeiniol *Minutes of the meeting held 04 June 2025 at Elim Chapel, Llanddeiniol*

1. Presennol / *Present:*

Glyn DAVIES (GD), Cyng. Gwyn W. EVANS (GE), John EVANS (JE), Gareth FLYNN (GF), Charles GREEN (Cadeirydd / *Chair*), Gwyn JONES (GJ), Iestyn TUDUR-JONES (ITJ).
Eifion ROBINSON (Clerc / *Clerk*).
Heledd DAVIES (Cyfieithydd / *Translator*)

2. Ymddiheuriadau / *Apologies:*

Morris JONES (MJ), Donald MORGAN (DM).

3. Datgan diddordeb / *Declaration of interest:*

Datganwyd diddordeb gan GF & Cadeirydd yn eitem 6.1 ac fe ymadawon yr ystafell ar gyfer y trafodaeth perthnasol / *GF & Chair declared an interest in item 6.1 and vacated the room during the relevant discussion.*

4. Cofnodion / *Minutes:*

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 02 Ebrill 2025, ond ni chymeradwywyd cofnodion cyfarfod 07 Mai 2025 gan fod angen cywiriad.
The minutes of the meeting held on 02 April 2025 was approved, but the minutes of the meeting on 07 May were not as a correction was necessary.

5. Materion Agored a Gweithredoedd yn Dilyn y Cyfarfod Blaenorol / *Open Matters and Actions from the Previous Meeting:*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Diweddariad / <i>Update</i>	Gweithred / <i>Action</i>
01	Gwirfoddolwyr / <i>Volunteers.</i>	<p>Clerc: dim diweddariad – dim byd wedi'i dderbyn gan Swyddog y Cyngor.</p> <p>GD: wedi disgwyl i'r Swyddog ddarparu templedi ar gyfer polisiau gwirfoddolwyr a ffurflenni i gofrestru gwirfoddolwyr a chanllawiau ar y ffordd orau o fwrw ymlaen â chael gwirfoddolwyr i helpu gyda tasgau yn y gymuned.</p> <p>Ble rydym ni'n sefyll ar hyn o bryd o ran yswiriant ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr yn y gymuned?</p> <p><i>Clerc: no update – nothing received from Council Officer.</i></p> <p><i>GD: had expected Officer to provide templates for volunteer policies and forms to enrol volunteers and guidance on how best to proceed with having volunteers help with jobs within the community.</i></p>	<p>Clerc: i gael gwybodaeth i egluro'r sefyllfa ynghylch yswiriant.</p> <p><i>Clerc: to obtain information to clarify the situation with regards to insurance.</i></p>

#	Disgrifiad / Description	Diweddariad / Update	Gweithred / Action
		<i>Where do we stand currently with regards to insurance cover for use of volunteers within the community?</i>	
02	Cyfrifon banc / <i>Bank accounts.</i>	GD: nid yw wedi gallu edrych ar actifadu ei fynediad i'r cyfrifon ar-lein. GF: wedi lawrlwytho ap Cyfrif Busnes HSBC ond yn ansicr sut i fwrw ymlaen. <i>GD: has not been able to look into activating his access to the online accounts.</i> <i>GF: had downloaded the HSBC Business Account app but unsure of how to proceed.</i>	Clerc: i ymholi gyda HSBC ynghylch sut mae defnyddwyr awdurdodedig yn gallu cael mynediad i'r cyfrifon ar-lein. <i>Clerk: to enquire with HSBC on how authorised users are to access the online accounts.</i>
03	TAW / VAT.	Clerc: wedi'i gwblhau a'i gyflwyno. <i>Clerk: completed and submitted.</i>	Dim gweithred pellach. <i>No further action.</i>
04	Talu am is-etholiad Llanrhystud (Haminiog). <i>Payment for the Llanrhystud (Haminiog) by-election.</i>	GE: dim atebion eto. Mae'n ymddangos bod Cyngor Cymuned Llanrhystud wedi cael ei godi dros £500 am gostau hyfforddi – nid yw'n ymddangos yn iawn y dylem fod yn talu costau o'r fath. Cadeirydd: gofynnodd a oedd ciniawau hefyd wedi'u costio i mewn. O brofiad, mae'n ofynnol i weithwyr y cyngor dalu eu costau eu hunain ar gyfer ciniawau os ydynt yn gweithio y tu allan i'r swyddfa. Clerc: gofynnodd a ddylid rhoi'r costau llawn ar yr hysbysfwrdd i'r gymuned eu gweld. Penderfynwyd mai'r peth gorau yw peidio â gwneud hynny. <i>GE: no answers yet. It seems Llanrhystud Community Council have been charged over £500 for training costs – doesn't seem right that we should be paying such costs.</i> <i>Chair: queried whether lunches were also costed in. From experience, council employees are required to cover their own costs for lunches if they are working out-of-office.</i> <i>Clerk: asked whether the full costs should be put up on the noticeboard for the community to see.</i> <i>It was decided that it is best not to do so.</i>	GE: i barhau ag ymholiadau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf. <i>GE: to persist with enquiries and update in the next meeting.</i>
05	K.Lewis (CPD Llanrhystud / <i>Llanrhystud FC</i>). Anfoneb 1 – Tymor 24/25 & diwedd cytundeb. <i>Invoice 1 – Season 24/25 & end of agreement.</i>	Clerc: nid yw wedi cael amser i gwblhau'r camau gweithredu hyn ac nid yw wedi gallu siarad â D.Moore. <i>Clerk: has not had time to complete these actions and has been unable to catch up with D.Moore.</i>	Clerc: i siarad gyda D.Moore ynglŷn a disgrifiad gwaith ac i gael dealltwriaeth am ba offer sydd yn cael ei cadw yn y garej. Clerc: i newid clo y garej ac i roi gwybod i ddefnyddwyr y garej am y trefniadau newydd.

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Diweddariad / <i>Update</i>	Gweithred / <i>Action</i>
			<p><i>Clerk: to speak with D.Moore regarding the job description and to gain an understanding of what Equipment is kept in the garage.</i></p> <p><i>Clerk: to change the lock and to inform users of the garage of the new arrangements.</i></p>
06	<p>JE: Hysbysfwrdd / <i>Noticeboard.</i></p>	<p>JE: er i'r cyngor gytuno i brynu dau godyn sbâr yn ystod y cyfarfod blaenorol, cynghorodd E.Harries y byddai'r colynnau hyn yn para'n hirach na'r hysbysfwrdd ei hun ac nad oes angen rhai sbâr. Felly, dim ond un colyn ychwanegol a archebwyd i'w osod gyda'r un a gyflenwyd yn flaenorol.</p> <p>Mae angen peintio'r hysbysfwrdd o hyd.</p> <p>Cyngor: cymeradwyo ad-daliad (£35.69) i JE am y golynnau.</p> <p>Cyngor: cymeradwyo hyd at £50 i'w dalu am baent ar gyfer yr hysbysfwrdd.</p> <p><i>JE: despite the council agreeing to purchase two spare hinges during the previous meeting, E.Harries advised that these hinges will last longer than the noticeboard itself and spares are not necessary. Therefore, only one additional hinge was ordered to be installed with the one previously supplied.</i></p> <p><i>The noticeboard still requires painting.</i></p> <p><i>Council: approve repayment (£35.69) to JE for the hinges.</i></p> <p><i>Council: approve up to £50 to be paid for paint for the noticeboard.</i></p>	<p>Clerc: i brynu paent addas.</p> <p><i>Clerk: to purchase suitable paint.</i></p>
07	<p>GF: Arwyddion cŵn llwybr cyhoeddus / <i>Public footpath dog signs.</i></p>	<p>Clerc: heb gael amser i gysylltu ag E.Jones yn CSC i ymholi am y gamfa.</p> <p><i>Clerk: has not had time to contact E.Jones at CCC to enquire about the stile.</i></p>	<p>Clerc: i gysylltu ag E.Jones i ofyn a fyddai'n bosib cael gwared o'r gamfa ar y llwybr cyhoeddus er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i bobl â chŵn.</p> <p><i>Clerk: to contact E.Jones to ask if it would be possible to remove the stile from the footpath to make it more accessible to people with dogs.</i></p>
08	<p>19/04/25 – Playsafety <i>Notification of play area inspection in June for Llanrhystud Community Council.</i></p>	<p>Clerc: heb allu siarad â D.Moore i holi sut mae'r pyst presennol wedi'u gosod.</p> <p><i>Clerk: has not been able to catch up with D.Moore to enquire about how the current posts are installed.</i></p>	<p>Clerc: i drefnu sefydlu'r pyst gôl newydd.</p> <p><i>Clerk: to arrange installation of new goal posts.</i></p>

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Diweddariad / <i>Update</i>	Gweithred / <i>Action</i>
09	15/04/25 – Deryck Evans (Archwilio Cymru / <i>Audit Wales</i>). <i>Audit Notice 2024-25 - Councils having a BASIC audit 2024-25 - Powys, Ceredigion.</i>	Clerc: mae'r Ffurflen Flynyddol wedi'i chwblhau ac mae'n barod i'w hadolygu cyn ei hanfon at G.Jones (Archwilydd Mewnol). <i>Clerk: the Annual Return has been completed and is ready for review before sending to G.Jones (Internal Auditor).</i>	Clerc: i gyfarfod â'r Cadeirydd i adolygu'r Ffurflen Flynyddol cyn ei hanfon at yr AM. <i>Clerk: to meet with Chair to review Annual Return before sending to the IA.</i>
10	System carthffosiaeth y pentref / <i>Village sewerage system.</i>	<p>Clerc: heb allu cael ffigurau eto ar ryddhau carthffosiaeth i'r afon.</p> <p>GE: wedi cysylltu â Dŵr Cymru – yn aros am alwad gan y person perthnasol, i drafod ymhellach.</p> <p>Trafodaeth gyffredinol: mae'n ymddangos nad yw'r orsaf garthffosiaeth yn gallu ymdopi. Mae carthffosiaeth yn cael ei symud o'r orsaf, ond nid yw'n ddigonol o hyd. Efallai bod angen gorsaf garthffosiaeth eu hunain ar Llanon. GE: Wyre yw'r afon fwyaf llygredig ym Mae Aberteifi.</p> <p>GD: sut mae'r traeth yn dal i gael ei ystyried yn dda ar gyfer nofio?</p> <p>GE: mae llawer o ffactorau'n gysylltiedig. <i>Clerk: has not yet been able to obtain figures on the release of sewerage to the river.</i> <i>GE: has contacted Welsh Water – awaiting call from relevant person, to discuss further.</i> <i>General discussion: sewerage station seems unable to cope. Sewerage is being removed from the station, but still not enough. Perhaps Llanon need their own sewerage station.</i> <i>GE: Wyre is the worst polluted river in Cardigan Bay.</i> <i>GD: how is the beach still considered good for swimming?</i> <i>GE: there are many factors involved.</i></p> <p>Cynhaliwyd trafodaeth bellach ar yr eitem hon yn dilyn trafodaeth ar eitem 6.1.</p> <p>Trafodaeth gyffredinol: nid yw'r system garthffosiaeth yn gallu ymdopi oherwydd y cynnydd yn nifer y tai.</p> <p>Gofynnwyd a oes angen ystyried ceisiadau cynllunio yn y dyfodol gyda'r mater hwn mewn golwg; fodd bynnag, cytunwyd nad yw'r cyngor yn erbyn datblygiad lleol, dim ond bod angen i'r seilwaith fod yn ei le.</p> <p>Cadeirydd: mae angen mynd ar drywydd hyn ond gwell aros am ganllawiau yn dilyn trafodaeth GE gyda Dŵr Cymru. <i>Further discussion on this item was held following discussion of item 6.1.</i></p>	<p>GE: i roi adborth yn dilyn trafodaeth gyda'r person perthnasol yn Dŵr Cymru. <i>GE: to feedback following discussion with relevant person at Welsh Water.</i></p>

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Diweddariad / <i>Update</i>	Gweithred / <i>Action</i>
		<p><i>General discussion: the sewerage system is unable to cope due to the increase in number of houses.</i></p> <p><i>It was queried whether future planning applications need considered with this issue in mind; however, it was agreed that the council are not against local development, only that the infrastructure needs to be in place.</i></p> <p><i>Chair: this needs to be pursued but will wait for guidance following GE discussion with Welsh Water.</i></p>	

6. Cynllunio / *Planning*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
1	<p>16/05/25 - Rowland Rees Evans Penrhos Golf & Country Club, Llanrhystud. SY23 5AY.</p> <p><i>A250315: Siting of 9 static caravans and 10 lodges.</i></p>	<p>Cynigiwyd na ddylid cofnodi unrhyw sylwadau ar y porth cynllunio: 5 O Blaid – 0 Yn Erbyn.</p> <p><i>Proposed that no observations are to be recorded on planning portal: 5 For – 0 Against.</i></p>

7. Gohebiaeth / *Correspondence*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
01	<p>11/05/25 – RMJ Tree Services.</p> <p><i>Anfoneb 215 / Invoice 215.</i></p>	<p>Cynghorwyr: cytunwyd i dalu am y gwaith mewn cyfarfod cynharach.</p> <p><i>Councillors: it was agreed in an earlier meeting to pay for the work.</i></p>
02	<p>21/05/25 – AJG (yswiriad / <i>insurance</i>)</p> <p><i>Cadarnhad Adnewyddu – taliad yn ddyledus / Renewal Confirmation – payment due.</i></p>	<p>Cynghorwyr: cytuno (7 dros – 0 yn erbyn) i dalu'r anfoneb.</p> <p><i>Councillors: agree (7 for – 0 against) to pay the invoice.</i></p>
03	<p>21/05/25 – Gill Byrne (RAY Ceredigion).</p> <p><i>Sesiynau chwarae'r haf / Summer play sessions.</i></p>	<p>Cadeirydd: Mae RAY Ceredigion yn bwriadu cynnal y sesiynau chwarae eto'r haf hwn. Cynigir caniatáu hyn, gyda'r un taliad wedi'i gytuno - £50 y sesiwn.</p> <p>Cynghorwyr: cytuno (7 dros – 0 yn erbyn).</p> <p><i>Chair: RAY Ceredigion are looking to hold the play sessions again this summer. Propose that this is allowed, with same payment agreed - £50 per session.</i></p> <p><i>Councillors: agree (7 for – 0 against).</i></p>
04	<p>23/05/25 – Matthew Roebuck (CSC / CCC).</p> <p><i>Grant Cyfalaf Man Chwarae Ceredigion / Ceredigion Play Area Capital Grant.</i></p>	<p>Cadeirydd: hyd at £13,500 ar gael, gydag o leiaf 10% o gyllid cyfatebol. Cynnig cyflwyno cais am offer chwarae.</p> <p>Cynghorwyr: cytuno (6 o blaid – 0 yn erbyn); gadawodd JE yr ystafell yn ystod y drafodaeth hon am egwyl gysur fer.</p> <p><i>Chair: up to £13,500 available, with at least 10% match funding. Propose to submit application for playground equipment.</i></p> <p><i>Councillors: agree (6 for – 0 against); JE vacated the room during this discussion for a short comfort break.</i></p>

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
05	27/05/25 – Preswlydd / <i>Resident</i> . Parcio annerbyniol / <i>Unacceptable parking</i> .	Mae lleoliad parcio'r fan yn broblem o ran gwelededd yn y gyffordd hon ac mae'n gwestiwn i'r Heddlu ymchwilio iddo. GE: i hysbysu'r Heddlu am y parcio peryglus ac ymholi gyda TRA ynghylch y mieri ar ochr arall yr afon sy'n rhwystro'r olygfa i draffig sy'n dod tuag ato. <i>The parking location of the van is a problem for visibility at this junction and is a query for the Police to investigate.</i> GE: to inform Police of the dangerous parking and enquire with TRA regarding the brambles on the other side of the river that are blocking the view to oncoming traffic.
	28/05/25 – E.Jones (CSC / <i>CCC</i>). Ymgynghoriad Anffurfiol / <i>Informal Consultation</i> .	Cynghorwyr: gofynnwyd cwestiynau am statws presennol y ffordd hon (Heol y Frenhines) a phwrpas y cais hwn? Pa effaith fyddai newid ei statws yn ei chael ar drigolion, e.e. o ran parcio eu ceir? GE: i ymholi gyda'r ymgeisydd ynghylch pwrpas y cais. Clerc: i ofyn am ragor o wybodaeth gan E.Jones. <i>Councillors: queried the current status of this road (Queen Street) and the purpose of this application? What impact would changing its status have on residents, e.g. with regards to parking their cars?</i> GE: to enquire with applicant on the purpose of the application. Clerc: to request more information from E.Jones.
Er gwybodaeth yn unig / <i>For information only</i>		
	15/05/25 – Deb Jeffreys (Planning Aid Wales). Amserlen hyfforddi CCC newydd 25/26 / <i>New PAW training schedule 25/26</i> .	Cadeirydd: yn awgrymu bod hyd at £150 yn cael ei wario ar hyfforddiant ar gyfer cynllunio. GF: nid oes angen i gynghorwyr ddod yn arbenigwyr cynllunio. GE: mae'n debygol bod y wybodaeth fwyaf perthnasol ar gael ar ffurf fer drwy ULIC – y mewnbwn ar gynllunio a ddisgwylir yw fel aelodau o'r gymuned. Clerc: i ymholi gydag ULIC ynghylch canllawiau cynllunio ar gyfer cynghorwyr cymuned. <i>Chair: suggests that up to £150 is spent on training for planning.</i> <i>GF: there is no need for councillors to become planning experts.</i> <i>GE: most relevant information is likely available in short form through OVW – the input on planning that is expected is as community members.</i> Clerc: to enquire with OVW regarding planning guidance for community councillors.
	22/05/25 – Rachel Carter (ULIC / <i>OVW</i>). <i>Pre Launch Pack - Save Our Seals from Flying Rings Campaign.</i>	Clerc: i uwchlwytho cyswllt i'r wybodaeth ar y wefan ac anfon yr e-bost ymlaen i ysgol Myfenydd <i>Clerc: to upload link to information on website and forward the email to Myfenydd school.</i>

8. Apeliadau / *Appeals*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
Dim apeliadau – cynhwyswyd eitem 8.1 yn yr agenda gan gamgymeriad / <i>No appeals – item 8.1 was included in the agenda in error.</i>		

9. Cyfrifon / *Accounts*

I. Balansau banc am y cyfnod 25.05.2025 / *Bank balances for the period 25.05.2025:*

Cyf. Cyfredol / <i>Current Acc.</i>	40-08-09; 70649244	£ 5,634.68
Cyf. Cynilo / <i>Savings Acc.</i>	40-08-09; 81355120	£ 8,911.12
Cyfanswm cyfredol / <i>Current total</i>		£ 14,545.80

II. Taliadau i'w cymeradwyo / *Payments to approve:*

1	Mrs. H. Davies (Cyfieithu – Mai / <i>Translation - May</i>)	£69.00
2	E.Robinson (Cyflog Mai / <i>Salary May</i>)	£241.20
3	RMJ Tree Services (Eitem 7.01 / <i>Item 7.01</i>)	£680.00
4	AJG Insurance (Eitem 7.02 / <i>Item 7.02</i>)	£1,137.52

10. Materion a godwyd gan y gymuned / *Matters raised by the community.*

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
Dim materion wedi codi / <i>No matters raised.</i>		

11. Unrhyw fusnes arall (UFA) / *Any other business (AOB)*


#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
01	Ymgynghoriad Cynllunio / <i>Planning Application: 04/06/25 – A250329; Jac Parry, 36 Heol Isoel, Llanrhystud SY23 5BJ.</i> <i>Installation of an air source heat pump, which will need to be placed on the boundary and not outside the 3m rule. This is due to this being the only location where it will fit.</i>	Cynigiwyd na ddylid cofnodi unrhyw sylwadau ar y porth cynllunio: 7 O Blaid – 0 Yn Erbyn. <i>Proposed that no observations are to be recorded on planning portal: 7 For – 0 Against.</i>
02	Fandaliaeth i sied y cae chwarae. Cadeirydd: derbyniwyd adroddiad gan yr Heddlu am bobl ifanc yn achosi fandaliaeth. Awgrymwyd defnyddio paent gwrth-ddringo. GF: ni fyddai paent gwrth-ddringo yn atal plant rhag dringo. <i>Vandalism to playing field Shed.</i> <i>Chair: received report from Police of youths causing vandalism. Suggest use of anti-climb paint.</i> <i>GF: anti-climb paint would not deter kids from climbing.</i>	Cyngor: i fonitro'r sefyllfa am y tro. <i>Council: to monitor the situation for now.</i>
03	Parcio yn y gymuned. Cadeirydd: yn cynnig bod yn rhagweithiol a chysylltu â thirfeddianwyr ynghylch parcio o fewn y pentref. GE: yn cynnig ychwanegu at agenda'r mis nesaf ar gyfer trafodaeth lawn. <i>Parking in the community.</i> <i>Chair: proposes to be pro-active and approach landowners regarding parking within village.</i> <i>GE: propose to add to next month's agenda for full discussion.</i>	Clerc: i'w ychwanegu fel eitem yn y cyfarfod nesaf. <i>Clerk: to add as item in next meeting.</i>

#	Disgrifiad / <i>Description</i>	Penderfyniad / <i>Decision</i>
04	<p>Negeseuon e-bost ynghylch gwaith arfaethedig ger y siop. GE: Mae Atkins yn cyfarfod â pherchnogion y siop i drafod manylion. <i>Emails regarding works proposed near shop.</i> <i>GE: Atkins are meeting with owners of shop to discuss details.</i></p>	<p>Cyngor: i fonitro'r sefyllfa am y tro. <i>Council: to monitor the situation for now.</i></p>

Cyfarfod nesaf ar 09 Gorffennaf 2025 yn Neuadd Goffa Llanrhystud am 7.30 yh.
Next meeting on 09 June 2025 in Llanrhystud Memorial Hall at 7.30 pm.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / *Correspondence welcomed in Welsh and English.*

Llofnod y cadeirydd / *Chairpersons signature:*



Dyddiad / *Date:*

9-7-25